

16 Gorffennaf 2021

Annwyl gyfeillion,

Diolch am eich gwaith caled a'ch ymdrechion parhaus i gynnal gwasanaethau meddygol cyffredinol dros y 15 mis diwethaf mewn amgylchiadau eithriadol yn ystod y pandemig.

Wrth inni ddechrau gweld llwyddiant y cyfyngiadau symud a'r ymgyrch frechu COVID-19, sydd wedi'i chyflawni i raddau helaeth gan feddygon teulu a thimau amlddisgyblaethol, rydym hefyd yn gweld yr anghenion clinigol y mae GIG Cymru yn gorfod ymateb iddynt a delio â hwy yn cronni. Bydd hyn yn her pan mae eich timau yn flinedig ac wedi bod yn gweithio'n galed i ddiogelu'r cyhoedd yn ystod pandemig byd-eang.

Rydym yn clywed hanesion am gleifion sydd wedi oedi cyn mynd i'w meddygfa ac sydd o ganlyniad yn dioddef salwch neu gymhlethdodau mwy difrifol. Mae cleifion hefyd yn dod i'r feddygfa gyda sawl problem, y maent yn aml wedi sylwi arnynt ers misoedd, ac sy'n disgwyl cael sylw i'w holl broblemau o fewn un ymgynghoriad. Bydd cleifion â chyflyrau hirdymor fel diabetes, COPD/Asthma neu gyflyrau ar y galon wedi methu rhai o'u hadolygiadau rheolaidd, neu bob un ohonynt, ac felly byddant yn disgwyl i'w gofal ataliol arferol ailddechrau gyda'u practisau.

Gan ystyried hyn, rydym wedi amlinellu rhai o'r prif awgrymiadau a negeseuon isod i helpu cleifion i ddeall sut y mae contractwyr y gwasanaethau meddygol cyffredinol yn gweithio.

- Anfon neges bwysig i'ch cymuned bod gwasanaethau **meddygon teulu** ar agor; sicrhau bod cleifion yn gallu cysylltu â'r practis pan fo angen.
- **Mae cyfathrebu â'ch cleifion yn hanfodol** – Mae practisau wedi bod ar agor i gleifion bob amser, ac rydym yn eich annog i hyrwyddo hyn yn lleol. Fe fyddwn ninnau hefyd yn cyfathrebu â'r cyhoedd yn genedlaethol i ategu'r neges bwysig hon.
- **Parhau i gynnig gwasanaethau digidol** a all fod yn ffordd effeithiol i rai cleifion gyfathrebu â phractisau.

- **Parhau i gynnal systemau brysbennu effeithiol** (e.e. model brysbennu cyflawn neu ddull ffonio yn gyntaf), a fydd, o gael eu cynnal gan uwch glinigwyr a'u cynnwys yn systemau'r practis a'r timau amlddisgyblaethol, yn sgrinio problemau lle nad oes angen gweld meddyg teulu wyneb yn wyneb. Byddant hefyd yn gwella profiad y claf drwy ei gyfeirio at y clinigwr mwyaf priodol y tro cyntaf.
- Hyrwyddo'r cyfle i gleifion ffonio drwy gydol y dydd, gan sicrhau bod cyfuniad o **apwyntiadau ar yr un diwrnod ac apwyntiadau y gellir eu trefnu ymlaen llaw, lle bo'n briodol.**


I gefnogi'r gwaith yr ydych yn ei wneud, cynhyrchwyd [fideo byr](#) i helpu i roi gwybod i'r cyhoedd beth y gallant ei ddisgwyl pan fyddant yn cysylltu â'u practis meddyg teulu. Mae hyn yn rhan o ymgyrch Llywodraeth Cymru, Helpwch Ni i'ch Helpu Chi.

Rydym yn cydnabod y galw a'r pwysau eithriadol sydd arnoch a gwyddom y bydd llawer ohonoch, os nad pob un ohonoch, eisoes yn gwneud y pethau hyn a llawer mwy. Ar adeg pan mae pwysau digynsail arnoch, hoffem ddiolch ichi eto ar ran y cyhoedd yng Nghymru am bopeth yr ydych wedi'i wneud, ac yn parhau i'w wneud.

Yn gywir,



**Alex Slade**  
**Dirprwy Gyfarwyddwr- Yr Is-adran Gofal Sylfaenol**  
**Deputy Director – Primary Care Division**



**Nick Wood**  
**Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd**  
**Meddwl**  
**Executive Director of Primary, Community and Mental Health Services**



**Dr Phil White**  
**Cadeirydd Pwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru**  
**Chair, GPC Wales**

*Mair Hopkin . Peter Saul*

**Dr Mair Hopkin a'r Athro Peter Saul  
Cyd-gadeiryddion RCGP Cymru  
Joint Chairs, RCGP Wales**